Mumbles Community Council

# Minutes of Culture, Tourism & Communications Committee Meeting Wednesday, 14th May 2025, at 2pm
# **Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams**

**Councillors Present:** Cllrs. Angela O'Connor (Chair), Rob Marshall (Vice Chair), Martin O'Neill, Richard Jarvis and Tim Zhou.

**Officers Present:** Claire Anderson – Events Officer and Ian Hughes - CSO

CT2505-01 **Apologies for Absence**
Cllr Dave Lewis

CT2505-02 **Declarations of Interest**
None

CT2505-03 **Minutes of the Previous Meeting of the Committee**
To approve the minutes of the meetings held on 16th April 2025 as a true record.
.
**RESOLVED:** To approve the meeting minutes held on 16th April 2025 as an accurate record.

CT2505-04 **Update on actions from previous meetings.**
The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of 'current actions' to committee members.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

CT2505-05 **Elect Vice Chair for Committee**

The Chair, Cllr O'Connor sought volunteers for the role of Vice Chair. Cllr Rob Marshall volunteered his services which was seconded by Cllr Jarvis. No other Councillor volunteered.
**RESOLVED:** Cllr Rob Marshall appointed as Vice Chair for the committee.

CT2505-06 **Budget Monitoring Report to 28/02/2025 - RFO, Paul Beynon** - Reports attached.

Financial report prepared by RFO Paul Beynon had previously been distributed to committee members. No questions relating to the budget report had been provided either to the CSO or the RFO prior to the meeting.

No questions were asked in relation to the RFO's report at the meeting.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 28th February 2025

CT2505-07 **VE Update**

Claire Anderson outlined how celebrations to commemorate the 80th Anniversary of VE Day at The Ostreme on 8th May 2025 had been a great success with eighty guests present. The catering was of a very high standard and both Rob Pendry and Madlen Forwood were very well received.

The Lord Lieutenant was in attendance together with representatives of the British Legion.

CT2505-08 **Mumbles May Madness Update**

Claire Anderson updated the committee on the Mumbles May Madness which had been well received. The event took place between the 1st and 10th and Claire will be obtaining further feedback from the participating businesses.

CT2505-09 **Raft Race**

A discussion took place on whether MCC should support the RNLI sponsored Raft Race, believed to be taking place on August 16th, 2025. In the event of The RNLI wishing to have the support of MCC, all committee members were enthusiastic in their support for contributing to the event.

**ACTION:** Cllr O'Connor to liaise with The RNLI and identify any support that can be provided and liaise with RFO over budgeting implications.

**RECOMMENDATION**: MCC to provide support to The RNLI in relation to The Summer Raft Race on 16th August 2025. Budgeting implication to be provided to Councillors at Full Council

CT2505-10 **Exclusion of Press and Public**

In accordance with the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, it is proposed that the press and public be excluded for the following items of business due to the confidential nature of the business to be transacted.

**RESOLVED** that due to the confidential nature of the business to be discussed, the press and public be excluded from the meeting.

Recording of the meeting stopped at 2.16pm

CT2505-11 **MumblesFest 2025 – Closed Session**

Discussion took place on the progress of MumblesFest 2025.

**The meeting ended at 2.46pm.**

**Next Meeting 11th June 2025**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant,Twristiaetha Chyfathrebu ddydd Mercher 14 Mai 2025 am 2pm**Cyfarfod Hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams**

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y Cynghorwyr Angela O'Connor (Cadeirydd), Rob Marshall (Is-gadeirydd), Martin O'Neill, Richard Jarvis a Tim Zhou.

**Swyddogion yn bresennol:** Claire Anderson – Swyddog Digwyddiadau, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

CT2505-01 **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd Dave Lewis

CT2505-02 **Datganiadau o fuddiant**
Dim

CT2505-03 **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2025 fel cofnod cywir.
.
**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2025 fel cofnod cywir.

CT2505-04 **Diweddariad ar gamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol.**
Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddariad i'r pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu oedd heb eu cymryd ar ôl iddo ddosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu cyfredol' i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu.

CT2505-05 **Ethol is-gadeirydd y pwyllgor**

Roedd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, yn chwilio am wirfoddolwyr ar gyfer rôl yr Is-gadeirydd. Cynigiodd y Cynghorydd Rob Marshall ei wasanaethau'n wirfoddol, ac fe eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Jarvis. Ni wirfoddolodd unrhyw gynghorydd arall.
**PENDERFYNWYD:** Penodi'r Cynghorydd Rob Marshall yn Is-gadeirydd y pwyllgor.

CT2505-06 **Adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 28 Chwefror 2025 – Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon** – Adroddiadau wedi'u hatodi.

Roedd adroddiad ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol Paul Beynon wedi'i ddosbarthu i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Nid oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r adroddiad cyllideb wedi'u darparu i'r Prif Swyddog Cymorth Cymdeithasol na'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn y cyfarfod.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau mewn perthynas ag adroddiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb tan 28 Chwefror 2025.

CT2505-07 **Diweddariad VE**

Amlinellodd Claire Anderson sut roedd dathliadau i goffáu 80 mlynedd ers Diwrnod VE yng Nghanolfan Ostreme ar 8 Mai 2025 wedi bod yn llwyddiant ysgubol gydag 80 o westeion yn bresennol.Roedd yr arlwyo o safon uchel iawn a chafodd Rob Pendry a Madlen Forwood groeso cynnes iawn.

Roedd yr Arglwydd Raglaw yn bresennol ynghyd â chynrychiolwyr o'r Lleng Brydeinig.

CT2505-08 **Diweddariad Miri Mai y Mwmbwls**

Rhoddodd Claire Anderson yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am Miri Mai'r Mwmbwls a gafodd groeso cynnes. Cynhaliwyd y digwyddiad rhwng 1 a 10 Mai a bydd Claire yn cael adborth pellach gan y busnesau a gymerodd ran.

CT2505-09 **Ras rafftiau**

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch a ddylai Cyngor Cymuned y Mwmbwls gefnogi ras rafftiau a noddir gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI), y credir y bydd yn digwydd ar 16 Awst 2025. Os oedd RNLI yn dymuno cael cefnogaeth Cyngor

Cymuned y Mwmbwls, roedd holl aelodau'r pwyllgor yn frwdfrydig yn eu cefnogaeth i gyfrannu at y digwyddiad.

**CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd O'Connor i gysylltu â'r RNLI a nodi unrhyw gefnogaeth y gellir ei darparu a chysylltu â'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ynghylch goblygiadau cyllidebol.

**ARGYMHELLIAD:** Cyngor Cymuned y Mwmbwls i ddarparu cefnogaeth i'r RNLI mewn perthynas â Ras Raftiau'r Haf ar 16 Awst 2025. Goblygiadau cyllidebol i'w darparu i gynghorwyr yn y Cyngor Llawn

CT2505-10 **Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

Yn unol â darpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, cynigir bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r eitemau busnes a ganlyn oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

**PENDERFYNWYD** , oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod.

Daeth recordiad y cyfarfod i ben am 2.16pm

CT2505-11 **Gŵyl y Mwmbwls 2025 – sesiwn gaeedig**

Cafwyd trafodaeth ar hynt Gŵyl y Mwmbwls 2025.

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.46pm.**

**Cyfarfod Nesaf 11 Mehefin 2025**